# Addewid Gweithredoedd Nid Geiriau 2.0

## Symud Tuag At Effaith Barhaol 2025-2030






tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# Symud tuag at effaith barhaol

Bum mlynedd ar ôl lansio'r Addewid Gweithredoedd Nid Geiriau, rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r cynnydd a wnaed mewn llywodraethiant, recriwtio, ymwybyddiaeth, a phartneriaethau mewn ymateb i'n galwad i weithredu a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2030. Fodd bynnag, mae hiliaeth systemig yn parhau i effeithio ar ein cymunedau amrywiol – yn staff, tenantiaid, a chymunedau ledled Cymru – gydag annhegwch mewn mynediad at dai, dilyniant gyrfa, a phrofiadau bywyd yn parhau, fel y dangoswyd gan ein harolwg sector diweddar.

Gyda'r gwrthwynebiad yn erbyn gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn tyfu, mae parhau i ymrwymo i gamau gweithredu gwrth-hiliol yn hanfodol. Rhaid i ni warchod y cynnydd a wneir, amlygu'r galwadau am gyfiawnder, a sicrhau bod cymunedau'n aros wedi'u cydgysylltu.

Mae Gweithredoedd Nid Geiriau 2.0 yn ailymrwymiad beiddgar i gael gwared ar anghydraddoldebau hiliol yn y sector tai. Mae wedi'i ymwreiddio mewn profiad bywyd ac wedi'i alinio â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2030 wedi'i ddiweddaru, ac mae'n ein symud o ddatganiadau i gamau parhaol, ymarferol a chroestoriadol.

Drwy lofnodi'r addewid hwn, rydym yn ymrwymo i genhadaeth a rennir: cael gwared ar hiliaeth yn y sector tai drwy arweinyddiaeth feiddgar, atebolrwydd ystyrlon, a chael effaith ar fywydau go iawn.

## Yr Addewid ar gyfer 2025–2030

### 1 Sefyll yn erbyn hiliaeth a naratifau niweidiol

**Byddwn yn creu amgylcheddau diogel ar gyfer staff, tenantiaid a chymunedau, drwy wneud yr hyn a ganlyn:**

- Gorfodi polisïau ac arferion dim goddefgarwch gyda systemau adrodd dibynadwy a diogel ar gyfer digwyddiadau hiliol a chasineb.
- Atal a herio achosion o wneud bwch dihangol o gymunedau mudol gyda ffeithiau, straeon pobl go iawn, ymgysylltu â chymunedau a staff, addysg neu ddulliau perthnasol eraill.
- Hyfforddi ac addysgu'r bwrdd, cydweithwyr a thenantiaid (os yw'n berthnasol) ynghylch gwrth-hiliaeth, rhagfarn anymwybodol ac unrhyw bynciau perthnasol eraill.

### 2 Mynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol mewn amodau tai

**WByddwn yn gweithio i sicrhau amodau tai teg i gymunedau ethnig leiafrifol, drwy:**

- Nodi gwahaniaethau hiliol a, lle y bônt yn bresennol, mynd i'r afael â nhw mewn unrhyw feysydd penodol, fel gorlenwi, lleithder, llwydni, gwaith atgyweirio, neu gynnal a chadw, sicrhau ymateb prydlon i broblemau (sefydliadau sy'n dal stoc)
- Defnyddio ein llais a'n dylanwad i amlygu a/neu fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol mewn unrhyw feysydd penodol, fel gorlenwi, lleithder, llwydni, gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw (pob sefydliad)



## 3 Hyrwyddo cynrychiolaeth deg a chefnogi dilyniant gyrfa

**Byddwn yn dileu rhwystrau i gydweithwyr o leiafrifoedd ethnig ac yn agor llwybrau at reolaeth ac arweinyddiaeth, drwy:**

- Mabwysiadu dulliau cynhwysol a thargedig o recriwtio i sicrhau newid wrth benodi a mynegi amrywiaeth y gymuned, gan gynnwys gweithredu cadarnhaol lle bo'n bosibl.
- Cynnig mentora, nawdd neu gyfleoedd a llwybrau datblygu gyrfa wedi'u teilwra i gefnogi dilyniant a chreu llwybrau at rolau rheoli ac arwain.
- Cefnogi ac arfogi timau AD gyda'r wybodaeth i lywio rheolau mewnfudo yn deg ac yn effeithiol, gan helpu i ddileu rhwystrau i gyflogaeth i fewnfudwyr.

## 4 Defnyddio data ac ymgysylltu i yrru cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth

**Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn defnyddio data ac yn ymgysylltu â chymunedau i lywio camau gwrth-hiliol, drwy:**

- Lliniaru bylchau data ac olrhain data ethnigrwydd ar draws:

o recriwtio a phob lefel o gyflogaeth i sicrhau cynrychiolaeth deg a dilyniant (gan gynnwys paratoi ar gyfer gofynion y bwlch cyflog yn ôl ethnigrwydd)
o amodau tai, atgyweiriadau a chynnal a chadw (lle bo'n berthnasol)
o hyfforddiant gwrth-hiliol, rhagfarn ac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall

- Ymgysylltu, dileu rhwystrau cyfathrebu a rhoi profiad bywyd ac arweinyddiaeth pobl sy'n cael eu heffeithio gan hiliaeth wrth galon dylunio a darparu gwasanaethau

# Ein Hymrwymiad a Rennir

Rydym yn cydnabod bod angen mwy na strategaeth i gael gwared ar hiliaeth—mae angen dewrder, gonestrwydd, ac ymrwymiad parhaus.

Yn wyneb y gwrthwynebiad cynyddol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae ein haddewid yn fwy na symboliaeth—mae'n weithred fwriadol o undod ac atebolrwydd.

Fel llofnodwyr Gweithredoedd Nid Geiriau 2.0, ymrwymwn i:

- Adrodd mewn modd tryloyw ynghylch ein camau a'n cynnydd pob blwyddyn.
- Goruchwylio a chraffu ar ein hymrwymiadau gwrth-hiliol ar lefel y bwrdd/pwyllgor i'r graddau gorau posibl.
- Amddiffyn y gwaith gwrth-hiliol a'i ddatblygu ar draws y sector, hyd yn oed mewn hinsawdd elyniaethol.
- Cydweithio ar draws y sector tai i sicrhau bod pob unigolyn yng Nghymru yn gallu cael mynediad at gartref diogel, gweddus ac urddasol—yn rhydd o hiliaeth.

**Gyda'n gilydd, rydym yn ymrwymo i newid gwirioneddol — nid yn unig mewn polisi, ond o ran profiadau bywyd unigolion.**

**I ymrwymo i'r addewid hwn: Anfonwch eich enw/sefydliad a'ch llofnod drwy e-bost i: evelyn@taipawb.org**

**Evelyn James – Rheolwr Gwrth-hiliaeth – Tai Pawb**

